Sut i ddod o hyd i'r Arian a Du

Y ffordd hawsaf o weld yr Arian a Du yw chwilio am yr oedolion ar ddyddiau heulog. Ffordd arall, nad yw'n dibynnu cymaint ar gyflwr y tywydd, yw chwilio am y 'gweadau' tua diwedd yr haf.

Mae'n bosibl yr ail-ddarganfyddir y gwyfyn hwn mewn coetiroedd llydanddail a reolir yn weithgar ar ochr ddwyreiniol Cymru. Mae'r ardaloedd â photensial yn y Gogledd yn cynnwys llennyrch mewn coedwigoedd, coed bedw ar ymylon yr ucheldiroedd, a rhostiroedd a chorsydd lle y mae ardaloedd eang o Helyg Mair.

c1212 June 2005

Gwarchod Glöynnod Byw Cymru
Achub glöynnod a gwyfynod gwyllt a'u cynefinoedd

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Paratowyd gan Gwarchod Glöynnod Byw gyda chyllid oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru Cronfa Her Rhywogaethau.

Gwarchod Glöynnod Byw
10 Rhes Calvert Abertawe SA1 6AR
Ffôn: 0870 7706153 E-bost: wales@butterfly-conservation.org

www.butterfly-conservation.org

Lluniau gan Dave Green, Dan Hoare and Paul Pugh

Mae Gwarchod Glöynnod Byw yn elusen gofrestredig ac yn gwmni di-elw, wedi'i gyfyngu gan warant.
Swyddfa Gofrestredig: Manor Yard East Lulworth Wareham Dorset BH20 5QP
Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 2206468 - Elusen Gofrestredig Rhif 254937
Designed and produced by **cellcreative** 01942 681648



Gwarchod Glöynnod Byw

Arian a Du

Rheumaptera hastata

Arian a Du Rheumaptera hastata

Mae'r Arian a Du'n wyfyn arbennig ei olwg sy'n hedfan yn ystod y dydd. Hen enwau herodrol yw'r 'Argent a Sable' yn ei enw Saesneg, ar y lliwiau 'arian' a 'du'. Torrir y bandiau du allanol sydd ar ei adennydd ôl a blaen gan glytiau gwynion â siâp blaen gwaywffon, sy'n esbonio'r 'hastata' yn ei enw gwyddonol (gwaywffon yw ystyr hasta yn Lladin). Daw ei hen enw yn Saesneg sef 'The Mottled Beauty' o'i olwg frith.

Mae dwy 'hil' wahanol ohono i'w cael yn y DU, Rheumaptera hastata hastata a'r ffurf lai R. hastata nigrescens. Gwelir R. hastata hastata mewn coetiroedd ag aildyfiant bedw ac ar rostiroedd mwy agored. Mae'r lindys yn ymborthi ar Fedw Arian, Bedw Cyffredin ac, ar rai safleoedd, Helyg Mair. Ceir R. hastata nigrescens ar rostiroedd a chorsydd, yn enwedig ar dir uchel. Mae'r lindys yn ymborthi ar Helyg Mair ac efallai hefyd ar Fedw Cyffredin.

Arferid ei gofnodi o'r blaen yng Ngogledd Cymru a rhai mannau ar draws y De. Ond yn Sir Fynwy a Sir Ddinbych yn unig y mae wedi cael ei gofnodi yn ddiweddar.

Mae Llywodraeth y DU wedi rhestru'r Arian a Du yn Rhywogaeth Flaenoriaethol dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, sy'n golygu bod angen dybryd gweithredu i'w achub.

Argent and Sable caterpillar

Caterpillar 'spinning' in Birch leaves

Caterpillar 'spinning' in Bog Myrtle

Cylch bywyd

Dodwyir yr wyau rhwng Mai a Gorffennaf. Mae'r lindys yn ddu sgleiniog â marciau euraid du ar hyd eu hochrau. Maent yn ymborthi o fewn siambr amddiffynnol o'r enw gwead (spinning) a adeiladant trwy glymu dail y planhigyn bwyd i'w gilydd. Bydd y lindys yn ymborthi am ryw bump wythnos, rhwng Mehefin a Medi, cyn treulio'r gaeaf fel chwilerod (pwpaod). Adroddir bod y pwpera ar safleoedd mewn coetiroedd yn digwydd mewn mwsogl wrth fôn y coed. Mae'r oedolion yn hedfan yn ystod y dydd, fel rheol mewn tywydd twym heulog, o Fai tan Fehefin yn achos R. hastata hastata ac o Fehefin tan hanner cyntaf Gorffennaf yn ystod R. hastata nigrescens.

Distribution map of the Argent and Sable





Rheoli cynefin yr Arian a Du

Ni ddeëllir yn llwyr ei ofynion manwl o ran cynefin, ond bydd y canllawiau canlynol o fudd i'r gwyfyn hwn sy'n hedfan yn ystod oriau'r dydd.

Coetir agored yn cynnwys bedw:

- Cadwch ffynhonnell barhaus coed bedw isel, hyd at 1.6m (5tfedd) mewn llennyrch heulog clyd. Torrwch y coed i lawr yn ôl trefn cylchdro i ganiatáu aildyfiant a sicrhau bod coed ifanc newydd yn datblygu.
- Bydd coedlannu bedw ar gylchdro byr gan ddilyn cylch o 10 mlynedd fan bellaf yn hybu parhad coed bedw addas. Dylai maint y rhaniadau fod yn 0.5 ha (1.25 erw) o leiaf.
- Bydd coedlannu bedw ar hyd rodfeydd heulog yn y coetir ac o gwmpas cyffyrdd y rhodfeydd yn fuddiol i'r rhywogaeth hon. Ond mae tocio'r bedw wrth ymyl rhodfeydd bob blwyddyn neu ddefnyddio chwynladdwyr yn niweidio'r gwyfyn.

Rhostiroedd a chorsydd:

- Cadwch ardaloedd eang o Helyg Mair, planhigyn bwyd y rhywogaeth, trwy ochel rhag gor-bori, sathru a defnyddio'r ardaloedd hyn i borthi da byw trwy'r gaeaf.
- Mae gor-bori gan ddefaid ar rostiroedd yn gallu amharu'n ddifrifol ar Helyg Mair, ond mae pori ysgafn yn fuddiol gan ei fod yn atal y prysgwydd rhag cymryd drosodd a chysgodi'r planhigyn bwyd hwn. Mae angen gwneud gwaith ymchwil pellach i effeithiau pori ar gynefinoedd bridio addas.
- Os nad oes anifeiliaid yn pori, mae'n bosibl y bydd angen torri a gwaredu peth prysgwydd.